OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 Rhif 2597 (Cy.220)

# TIROEDD COMIN, CYMRU

## Rheoliadau Cofrestru Tiroedd Comin (Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2007

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *4 Medi 2007* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *6 Medi 2007* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Hydref 2007* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a freiniwyd ynddynt(**1**) gan adran 19(1) o Ddeddf Cofrestru Tiroedd Comin 1965(**2**):

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cofrestru Tiroedd Comin (Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2007.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Hydref 2007.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(4) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "Rheoliadau 1966" ("the 1966 Regulations") yw Rheoliadau Cofrestru Tiroedd Comin (Cyffredinol) 1966(**3**).

### Dirymu

**2.** Mae'r darpariaethau a ganlyn o Reoliadau 1966 wedi eu dirymu—

(a) rheoliad 32 (chwiliadau swyddogol a thystysgrifau swyddogol);

(b) rheoliad 35 (cyflenwi ffurflenni penodol);

(c) yn Atodlen 1 (ffurflenni), Ffurflen 21 a'r dyblygiad ohoni; ac

(ch) yn Atodlen 3 (ffioedd ar gyfer chwiliadau etc.), yr eitem gyntaf a'r ail eitem yn y tabl.

---

(**1**) O ran Cymru, cafodd swyddogaethau'r Gweinidog eu trosglwyddo i Ysgrifennydd Gwladol Cymru gan Orchymyn y Weinyddiaeth Tir ac Adnoddau Naturiol (Diddymu) 1967 (O.S. 1967/156). Trosglwyddwyd swyddogaethau Ysgrifennydd Gwladol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac maent bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**2**) 1965 p.64. *Gweler* adran 22(1) ar gyfer y diffiniadau o "the Minister" ac o "prescribed".

(**3**) O.S. 1966/1471; mae O.S. 1980/1195 (a ddirymwyd gan O.S. 1989/2167), 1982/210, 1989/2167 a 2003/994 (Cy.143) yn offerynnau diwygio perthnasol.

**3.** Mae'r Rheoliadau a ganlyn wedi eu dirymu —

(a) Rheoliadau Cofrestru Tiroedd Comin (Cyffredinol) (Diwygio) 1982(**4**);

(b) Rheoliadau Cofrestru Tiroedd Comin (Cyffredinol) (Diwygio) 1989(**5**); ac

(c) Rheoliadau Cofrestru Tiroedd Comin (Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2003(**6**).

**Diwygio Rheoliadau 1966**

**4.** Yn rheoliad 34(1) o Reoliadau 1966, yn lle "for searches and official certificates of search, and for certified copies and extracts", rhodder " for certified copies and extracts".

*Jane Davidson*
Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, un o Weinidogion Cymru

4 Awst 2007

(**4**) O.S. 1982/210.
(**5**) O.S. 1989/2167.
(**6**) O.S. 2003/994 (Cy.143).

---

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu, ar 1 Hydref 2007, y darpariaethau yn Rheoliadau Cofrestru Tiroedd Comin (Cyffredinol) 1966 (O.S. 1966/1471) ("Rheoliadau 1966") sy'n ymwneud â chwiliadau swyddogol o gofrestrau'r tiroedd comin a thystysgrifau chwiliad swyddogol i'r graddau y mae'r darpariaethau hynny yn gymwys o ran Cymru ac maent yn gwneud diwygiad cysylltiedig i'r Rheoliadau hynny.

Bydd modd gwneud chwiliad o gofrestrau'r tiroedd comin yn hytrach drwy'r cwestiwn newydd a ychwanegwyd at Ran II o'r Ffurflen Ymholiadau Atodol i Awdurdod CON 29O ddiwygiedig.

Mae Rheoliad 35 (cyflenwi ffurflenni penodol) o Reoliadau 1966 hefyd wedi ei ddirymu oherwydd nad yw'r trefniadau i Swyddfa Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus (Y Llyfrfa gynt) gyflenwi'r ffurflenni a bennir yn y rheoliad hwnnw yn parhau.

Cyhoeddwyd asesiad effaith rheoleiddiol llawn ar effaith y newid yn y trefniadau ar gyfer chwiliadau o gofrestrau'r tiroedd comin ar gyfer Deddf Tiroedd Comin 2006 (p.26). Gellir gweld yr asesiad ar wefan Defra yn www.defra.gov.uk.